TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 4 Hydref 2021

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

> *"A gaf i ofyn am ddata lleoliad daearyddol (naill ai cyfeiriad neu hydred/lledred) pob depo rheilffordd yn ardal Manceinion Fwyaf a ddefnyddiwyd gan drenau [a gadarnhawyd] oedd yn cael eu gweithredu gan Wasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn 2019. Hefyd, a gaf i ofyn am y swm blynyddol o ddisel a ddefnyddiwyd gan bob depo unigol yn ardal Manceinion Fwyaf i ail-lenwi tanciau trenau oedd yn cael eu gweithredu gan Wasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn 2019."*

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Gallwn gadarnhau bod yr wybodaeth rydych chi'n gofyn amdani gan Trafnidiaeth Cymru. Diolch i chi am egluro natur eich cais ac am eich amynedd wrth i ni weithio tuag at ymateb.

Ni all Trafnidiaeth Cymru ddarparu'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani am resymau'n ymwneud â diogelwch cenedlaethol. Felly, mae'n briodol i ddal yr wybodaeth hon yn ôl o dan adran 38 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Iechyd a Diogelwch). Mae rhagor o wybodaeth am yr eithriad hwn ar gael yma.

Ymddiheurwn yn daer am beidio â thynnu sylw at hyn adeg gofyn am eglurhad; esgeulustod pur ar ein rhan ni oedd hyn.

Yn gywir,

## Trafnidiaeth Cymru

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".